OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2681 (Cy.187)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*27 Medi 2005*
Yn dod i rym	- -	*28 Medi 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 121AA a 121B o Ddeddf Tai 1985(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 28 Medi 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 1985;

ystyr "y ddogfen" ("*the document*") yw'r ddogfen a baratowyd gan landlord yn unol ag adran 121AA o'r Ddeddf;

ystyr "landlord" ("*landlord*") yw corff sy'n gosod tai annedd o dan denantiaethau diogel.

Materion y mae'n rhaid rhoi gwybodaeth amdanynt i denantiaid diogel

3. Mae'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn faterion a bennir at ddibenion adran 121AA o'r Ddeddf.

(**1**) 1985 p.68. Mewnosodwyd adrannau 121AA a 121B gan adran 189 o Ddeddf Tai 2004 (p.34). Drwy adran 270(3) o'r Ddeddf honno daeth adran 189 i rym ar 18 Ionawr 2005. Drwy adran 267 o Ddeddf Tai 2004 mae cyfeiriadau at Ddeddf Tai 1985 i'w trin fel cyfeiriadau at y Ddeddf honno fel y'i diwygiwyd yn rhinwedd Deddf Tai 2004.

(**2**) *Gweler*O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 121AA, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo.

Pryd y mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen

4.—(1) Rhaid i landlord gyhoeddi'r ddogfen o fewn dau fis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(2) Os bydd landlord yn diwygio'r ddogfen o dan adran 121AA(4) o'r Ddeddf rhaid iddo gyhoeddi'r ddogfen yn ei ffurf ddiwygiedig o fewn mis o'r diwygio.

Pryd y mae'n rhaid rhoi copi o'r ddogfen

5.—(1) Ar ôl cyhoeddi'r ddogfen yn unol ag erthygl 4(1) neu (2) rhaid i landlord roi copi o'r ddogfen—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i bob un o'i denantiaid diogel ar yr adeg honno; a

(b) i bob tenant diogel newydd wedyn, ar yr adeg y llofnodir y denantiaeth.

(2) Rhaid i landlord roi i bob un o'i denantiaid diogel gopi o fersiwn gyfredol y ddogfen o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad pan roddwyd y ddogfen yn unol ag erthygl 5(1)(a).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

27 Medi 2005

(**3**) 1998 p.38.